**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am Yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth ddydd Iau 4 Mai 2023**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies (trwy Teams), John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans, Prys Morgan ac Emlyn Roberts, Caroline Sanger-Davies, Vicki Spencer-Francis

**Trwy Wahoddiad:** Maria Richards, Llywodraeth Cymru

**Y Swyddogion Gweithredol yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Rachael Madeley-Davies (Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol)
Laura Pickup (Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau)
Bryan Regan (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i gyfarfod y Bwrdd gan y Cadeirydd.

Rhoddwyd croeso arbennig i Gyfarwyddwyr Anweithredol a oedd newydd gael eu penodi, sef Hugh Hesketh-Evans, Caroline Sanger-Davies a Vicki Spencer-Francis a oedd yn mynychu eu cyfarfod ffurfiol cyntaf o Fwrdd HCC.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd:

8 Mawrth 2023 – Cafodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfarfod diweddaru drwy Teams gyda Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig yn Senedd Cymru.

9 Mawrth 2023 – Mynychodd y Cadeirydd gyfarfod o'r Grŵp Polisi a Chynghori Masnach, Caerdydd ac yna bu yn nigwyddiad masnach Explore Export.

13 Mawrth 2023 – Cafodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfarfod diweddaru drwy Teams gyda Swyddogion NFU Cymru.

15 Medi 2023 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghyfarfod Llywodraeth Cymru / Llywodraethiant HCC drwy gyfrwng Teams.

Parhaodd sesiynau dal-i-fyny wythnosol gyda'r Prif Weithredwr drwy Teams.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau gan un o Aelodau'r Bwrdd, yr Athro Mike Humphreys.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau newydd.

Er budd Aelodau newydd y Bwrdd, cafwyd cyflwyniadau gloywi bwrdd crwn a thynnodd Aelodau'r Bwrdd sylw at y Datganiadau o Fuddiannau sy'n bodoli.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol fod drafft o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon HCC ar gyfer 2022 / 2023 ar y gweill a gofynnodd i'r Bwrdd ei hysbysu'n ffurfiol cyn gynted â phosibl os oedd unrhyw wybodaeth newydd neu ychwanegol o ran eu datganiadau nad oedd yr Archwilwyr yn ymwybodol ohonynt.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Mawrth 2023 (HCC 1132)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfodydd uchod wedi eu darllen, cawsant eu derbyn gan y Bwrdd a'u llofnodi gan y Cadeirydd yn amodol ar yr hyn a ganlyn:

Cywirodd y Cadeirydd y datganiad a wnaed ganddi yn ystod cyfarfod y Bwrdd ar 2 Mawrth 2023 oherwydd ar y pryd nid oedd y cyngor wedi mynd at y Gweinidog ynghylch y penodiadau Bwrdd newydd.

5. **Materion yn codi**

*Ardoll HCC - Ymgynghoriad*

Cadarnhawyd bod talwyr yr Ardoll (ffermwyr a phroseswyr) a'r marchnadoedd arwerthu wedi cael gwybod am y cyfraddau Ardoll newydd ac nid oedd unrhyw faterion i'w hadrodd.

*Cynllun Busnes HCC 2021 / 2026 a Chynllun Gweithredol HCC 2023 / 2024*

Cynllun Busnes HCC 2021/2026 a Chynllun Gweithredol 2023/2024

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Gweithgareddau (HCC 1133)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar ddull newydd o adrodd a fyddai'n fwy cryno ac yn unol â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yng Nghynllun Gweithredol 2023 / 2024. Câi'r fformat newydd arfaethedig ei gyflwyno i'r Bwrdd yn y cyfarfod ar 6 Gorffennaf 2023

Dywedodd y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau fod teithiau mewnol diweddar wedi bod yn llwyddiannus o ran rhwydweithio a'r posibilrwydd o gyfleoedd busnes marchnata newydd.

Roedd cynllunio ar y gweill ar gyfer ymgyrchoedd HCC i dargedu defnyddwyr Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI yn 2023 / 2024 a châi aelodau'r Bwrdd eu diweddaru maes o law.

Byddai gan HCC bresenoldeb yng Ngwyl Fwyd Tutto ym Milan o 8 – 11 Mai 2023. Roedd y digwyddiad masnachol hwn yn llwyfan allweddol i arddangos cynhyrchion cig o safon o Gymru a hefyd yn gyfle i gynhyrchwyr a dosbarthwyr ymgysylltu â chleientiaid allweddol cyfredol a darpar gleientiaid.

Parhaodd gwaith a thrafod gyda Phartneriaeth Tystysgrif Allforio'r DG mewn perthynas â chig coch Cymru a blaenoriaethau'r diwydiant ar gyfer mynediad i'r farchnad yn 2023 / 2024.

Cafwyd diweddariad gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi ar gyfer y Dyfodol ynghylch y Prosiect Datblygu Cig Coch.

Byddai'r tîm yn rhoi cyflwyniad yng nghyfarfod y Bwrdd ar 6 Gorffennaf 2023 ynghylch casgliadau a chanlyniadau allweddol. Byddai'r tîm RMDP yn cyflwyno i'r Bwrdd yng nghyfarfod y Bwrdd ar 6 Gorffennaf 2023 ar gasgliadau allweddol y prosiect.

b. *Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1134)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

c. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Mawrth 2023 (HCC 1135)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

Nododd y Bwrdd y sefyllfa a bydd yn cael gwybod am ddatblygiadau.

d. *Digwyddiadau i ddod (HCC 1136)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau.

Cytunwyd y byddai rhagor o fanylion yn cael eu cynnwys ym mhapurau Digwyddiadau i Ddod er gwybodaeth i'r Bwrdd.

**Gweithredu: Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

e. *Sioe Frenhinol Cymru 24 – 27 Gorffennaf 2023*

Roedd cynllunio ar y gweill ar gyfer presenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru eleni a chafwyd trosolwg.

- Roedd cynllunio ar y gweill ar gyfer diwrnodau a gweithgareddau thema a fyddai'n cynnwys sesiynau coginio / blasu ac arddangosiadau cigyddiaeth ynghyd â derbyniadau yn amlygu gwaith a chanlyniadau'r Rhaglen Datblygu Cig Coch. Byddai brecwast HCC yn cael ei gynnal fel arfer am 8am gydag anerchiad gan Lesley Griffiths AoS, y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn Senedd Cymru

Byddai briff llawn yn cael ei baratoi ar gyfer y Bwrdd a'i gyflwyno yn y cyfarfod ar 6 Gorffennaf 2023.

**Gweithredu: Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

f. *I dderbyn papur ar Adolygiad Diwedd Blwyddyn o Gynllun Gweithredol HCC 2022 / 2023 (HCC 1137)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafwyd crynhoad ohono gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod yna fylchau mewn rhai colofnau (colofnau gwyn) o dan y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a bennwyd ar gyfer “Datblygu marchnadoedd cartref ar gyfer cig coch Cymru” a “Hwyluso ac annog effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi” wrth ddisgwyl gwybodaeth ddata. Byddai'r Swyddogion Gweithredol yn dilyn y meysydd hyn a châi’r ddogfen ei diweddaru'n unol â hynny.

**Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

Cytunodd y Bwrdd fod y papur yn llywio canlyniad cadarnhaol i gyflawniad HCC yn ôl Cynllun Gweithredol ar gyfer 2022 / 2023.

7. **Pwyllgorau HCC**

*a.* *I drafod yr adolygiad o Bwyllgorau HCC*

Cafwyd trosolwg / cyflwyniad gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi’r Dyfodol ynghylch yr adolygiad arfaethedig o Bwyllgorau HCC yn unol â strwythur trefniadaethol newydd HCC ac i adlewyrchu’r newidiadau parhaus yn y diwydiant, megis yr amgylchedd, cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd.

Cafwyd trafodaethau bord gron, gyda'r Bwrdd yn cytuno i'r strwythur Pwyllgorau newydd arfaethedig yn amodol ar adolygiad amserol.

Er mwyn symud ymlaen, cytunwyd ar y canlynol:

- Rhannu'r Cylch Gorchwyl presennol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Tâl (Pwyllgorau Statudol) gyda'r Bwrdd.
- Drafftio Cylch Gorchwyl y Grŵp Arloesedd ac Ymchwil Cynaliadwy.

**Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi’r Dyfodol / Ysgrifenyddiaeth**

Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

*b.* *I dderbyn y Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Mawrth 2023 (HCC 1138)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

c. *I dderbyn adroddiad a mabwysiadu’r Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mawrth 14 Mawrth 2023 (HCC 1139)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd ei ddefnddio’n adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

Mabwysiadwyd y cofnodion gan y Bwrdd.

8. **Unrhyw fater arall**

*Diogelwch Bwyd*

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â phryderon parhaus am ddiogelwch bwyd.

Bu’r Bwrdd yn ystyried y ffaith fod chwyddiant bwyd yn uwch nag a fu am 45 mlynedd ar gyfer llysiau a chynhyrchion llaeth, ond nid ar gyfer cig coch er gwaethaf prisiau da i’r ffermwr.

Pwysleisiwyd bod HCC ar hyn o bryd yn cyfrannu at y deialog ynghylch diogeledd bwyd cynaliadwy pan fo hynny’n briodol, a byddai hyn yn parhau.

*Bwrdd HCC a Chyfathrebiadau*

Cytunwyd y dylid diweddaru aelodau’r Bwrdd ynghylch cyfathrebu yn unol â’u dyletswyddau yn Gyfarwyddwyr Anweithredol.

**Gweithredu: Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

*Prif Swyddog Milfeddygol newydd Cymru*

Cytunwyd gwahodd Dr Richard Irvine, y Prif Swyddog Milfeddygol newydd, i gyfarfod o’r Bwrdd yn y dyfodol.

**Gweithredu:Y Prif Weithredwr**

9. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Diweddaru’r Bwrdd drwy gyfrwng Teams – Dydd Iau 8 Mehefin 2023 am 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 6 Gorffennaf 2023. Yr amser heb ei drefnu.